



NODION SEION

NADOLIG 2016

Myfyrdod Nadolig gan y Gweinidog

Beth sydd yn eich tynnu ac yn eich denu chi at yr Arglwydd Iesu Grist?

Tystiolaeth gwraig o'r enw Amy Price yw ei bod wedi cael ei denu at Iesu drwy ei gwaith yn yr Oriel Gelf Genedlaethol yn Llundain. Wrth iddi gerdded drwy'r neuaddau eang a syllu ar weithiau'r meistri yn portreadu bywyd Iesu, teimlai ei bod yn cael ei denu i ddsygu mwy amdano.

Ar wyliau yn Majorca nifer o flynyddoedd yn ôl roedd yna oedfa'n cael ei chynnal ar fore Sul yn y gwesty lle roeddem yn sefyll. Er mawr syndod roedd y pregethwr wedi bod yn byw ac yn gweithio yn Aberystwyth, ac roedd ef wedi cael ei ddenu at Grist gan bamffledyn Cristnogol a gododd oddi ar y pafin un diwrnod yma yn Aberystwyth. Roedd y pamffledyn yn sôn yn syml am fywyd a gweinidogaeth yr Arglwydd Iesu Grist gan bwysleisio ei gariad tuag atom a'r maddeuant a sicrhodd ef i ni ar y groes.

Cychwynnodd fy nhaith bersonol i at Grist gydag ymwybyddiaeth real iawn o'r angen am faddeuant a hynny'n arwain at y wefr o brofi maddeuant a thangnefedd. Wrth ddarllen hanes y Nadolig cyntaf gwelwn fod dynion o gefndiroedd mor eithriadol o wahanol i'w gilydd wedi cael gwahoddiad gan Dduw i ddod at yr Arglwydd Iesu. Cyflwynir ni yn y Testament Newydd i fugeiliaid ac i seryddion o'r dwyrain.

Ni ellid cael dau grŵp mwy annhebyg i'w gilydd. Ystyrid y bugeiliaid yn wehilion cymdeithas a chawsant eu labelu yn dwyllwyr ac yn gelwyddgwn. Nid oedd hawl gan fugeiliaid ddwyn tystiolaeth mewn llys barn – cymerwyd yn ganiataol y byddent yn dweud celwydd. Nid oedd croeso iddynt yn

y synagogau ac ystyrid hwy fel carfan isaf dosbarth isaf eu diwylliant.

Roedd y doethion ar y llaw arall yn perthyn i haen uchaf cymdeithas. Cawn brawf o hyn yn y ffaith iddynt, wrth ddod i Jerwsalem i chwilio am yr un a aned i fod yn Frenin yr Iddewon, gael mynediad i balas Herod yn gwbl ddiraffferth a hyd yn oed i bresenoldeb Herod ei hun. Ni fyddai'r bugeiliaid wedi cael mynediad i'r cyntedd allanol.

Dynion anllythrennog oedd y bugeiliaid heb dderbyn unrhyw addysg. O'u cymharu, roedd y seryddion neu'r *magoi* yn enwog am eu gwybodaeth, dyna paham y cyfeirir atynt fel doethion. Deuent o diriogaeth Iran ac roeddent yn enwog am eu gwybodaeth o ddogfennau crefyddol ynghyd â seryddiaeth. Hwy oedd ysgolheigion eu dydd a chyfeirid at eu dysgeidiaeth fel "deddfau'r Persiaid a'r Mediaid".

Ni ddaeth Iesu i fod yn Waredwr i'r dethol rai yn unig. Daeth i fod yn Waredwr y ddynoliaeth gyfan. Cafodd Iesu ei eni ym Methlehem Jwdea ar gyfer pawb. Nid oes neb yn ddibwys yng ngolwg Duw. Mae'r efengyl i **bawb** beth bynnag yw eu statws mewn cymdeithas. Cyhoeddodd yr angylion wrth y bugeiliaid bod y newydd da am eni'r Gwaredwr yn newydd da "i'r holl bobl" (Luc 2:10).

Mae gan bawb ohonom yr un angen dwfn am Waredwr yn nyfnderoedd ein bod. Atgoffir ni gan Paul, "Does neb wedi gallu cyrraedd safon berffaith Duw ar eu pennau eu hunain" (Rhufeiniaid 3:23). Pwysleisia'r apostol ymhellach, "Daeth y Meseia Iesu i'r byd i achub pechaduriaid" (I Timotheus 1:15).

Mae Duw yn caru pobl, yr holl bobl ac yn dyheu ar i ni edifarhau am ein pechodau a dyfod ato i brofi ei faddeuant a'i ymgeledd. Sawl ffordd sydd yna at Dduw yn ôl y Beibl? Un! Deuwn at Dduw yn unig drwy ffydd yn yr Arglwydd Iesu Grist. Ef yw'r "ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd" (Ioan 14:6). Nid oes neb yn dod at y Tad ond trwyddo Ef. Ond sawl ffordd sydd yna at Iesu? Cannoedd! Pob math o ffydd! Nid yw Duw'n ewyllysio bod neb yn mynd i ddistryw ond bod pawb yn dod i edifeirwch ac felly mae'n denu pobl o bob cefndir - bugeiliaid a doethion - gyda'i gariad mawr. Defnyddia Duw pob math o ffydd i dynnu pobl ato - o bamffledyn Cristnogol sydd wedi ei daflu ar y pafin i weithiau trawiadol y meistri mewn oriel gelf. Fe wnaiff hyd yn oed ddefnyddio chi a fi dim ond i ni adael iddo. Dywed Paul ein bod i fyw yn y fath fodd fel ein bod yn "disgleirio... fel goleuadau yn y byd" (Philipiadaid 2:15) wrth rannu'r neges am yr Arglwydd Iesu Grist.

Yn y rhifyn cyfredol o Gylchgrawn Cymdeithas Annibynwyr y byd, ceir anerchiadau gan y Parchedig Haroutune Selimian, Llywydd Eglwys Brotestannaidd yr Armeniaid yn Syria, anerchiadau a phregethau a draddododd ym mis Mai yng Nghynhadledd y Gynghrair Gynulleidfaol ac yng nghapel Bunyan yn Bedford. Mae e'n byw ac yn gweinidogaethu yn Aleppo.

Dywed fod pobl yn Syria yn chwilio am obaith i oroesi. Ceisia Cristnogion dewr, a Haroutune Selimian yn un ohonynt, gynnig gobaith iddynt wrth fyw bywydau Crist-debyg. Maen nhw'n mynnu gweini ar bobl pa beth bynnag yw eu cred neu eu hil. "We serve people without discrimination," meddai Haroutune Selimian. Maent yn gweini ar bobl mewn ffydd ymarferol - dyma un enghraifft. Mae dinas Aleppo wedi bod heb ddŵr am ddwy flynedd ac mae Haroutune Selimian a'i gyd-aelodau wedi bod yn cloddio am ddŵr ac wedi llwyddo i agor ffynnon yn y cwrt o amgylch y capel ac yna maent yn dosbarthu'r dŵr i'r bobl. Dyma i

chi ddynion a merched sy'n disgleirio fel goleuadau yn Aleppo heddiw -gweithredwyr trugaredd a heddwch, daioni a chariad.

Dywed Haroutune Selimian na all Syria heddiw, na Syria yfory, gael ei hailadeiladu heb yr eglwys Gristnogol - dynion a merched Crist-debyg. Dyna'r sialens i ninnau hefyd dros y Nadolig ac i'r flwyddyn newydd - dangos cariad a daioni Crist yn ein cylch ni o fyw yn y fath fodd fel bod pobl yn dod i weld bod y Gwaredwr a aned ym Methlehem yn byw yn ein calonnau. Yn y Gwaredwr hwn mae gobaith y ddynoliaeth am gymod a heddwch, llawenydd a chariad.

Rhown glod i'r Mab bychan, ar liniau Mair wiwlan, daeth Duwdod mewn baban i'n byd: ei ras O derbyniwn, ei haeddiant cyhoeddwn a throsto ef gweithiwn i gyd. (Jane Ellis)

Edrychaf ymlaen at ymuno â chi yn oedfeuron yr Ŵyl yng nghwmni'r plant, yr ieuencid a'r myfyrwyr. Yr ydym yn ymwybodol bod nifer o'n ffyddloniaid wedi eu caethiwo gan afiechyd ac anhwylder. Ceisiwn gofio'n gyson dros bawb yn ein gweddiâu, a'n gweddi yw y bydd i bobl Iesu Grist i gyd brofi ei dangnefedd ef dros Ŵyl y Geni.

Andrew Lenny

Cyfrifon yr Eglwys

Dymuna'r Trysorydd a'r Ysgrifennydd Ariannol ddiolch yn ddiffuant am y cydweithrediad a gafwyd yn ystod y flwyddyn hon eto. Fel y gwyddoch, mae Sul olaf y flwyddyn ar 25 Rhagfyr ac felly fe fyddwn yn cau llyfrau cyfrifon yr eglwys yn dilyn oedfa'r bore ar y Sul hwnnw. Byddem yn ddiolchgar pe bai eich cyfraniadau wedi dod i law **CYN NEU O LEIAF ERBYN Y DYDDIAD HWN**. Bydd y cyfraniadau a dderbynnir ar ôl Sul olaf y flwyddyn yn cael eu cynnwys yng nghyfrifon 2017. Dosberthir ffurflen gyda'r rhifyn hwn o'r Nodion ar gyfer aelodau sy'n dymuno cyfrannu trwy Orchymyn Banc. Mae nifer o aelodau eisoes yn manteisio ar y drefn hon.

Aelodau a hunodd

Mrs Gwenllian Meredith (10 Hydref, 2016)
Mr Andras Millward (16 Hydref, 2016)
‘Dywedodd Iesu, “Myfi yw’r atgyfodiad a’r bywyd. Pwy bynnag sy’n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy’n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth” (Ioan 11:25,26).

Cydymdeimlwn â phawb sydd wedi colli anwyliaid:

Mrs Eurogwen Morse (chwaer), Dr Edward Millward (mab), Miss Llio Millward (brawd), Mrs Eileen Williams (cefnider), Mrs Dilys Jones (chwaer yng nghyfraith), Mrs Audrey Evans (modryb), Mrs Ann Evans (tad).

Yn yr ysbyty neu newydd dderbyn triniaeth

Mr Emyr James, Miss Rhiannon Hughes, Miss Evelyn Jones, Mr Huw Evans

Llongyfarchiadau

i Cyntra a Prys Lewis ar enedigaeth eu mab, Jac ar 3 Tachwedd, 2016 – Wŷr cyntaf Mr Gerallt Davies.
i Mrs Nan Rees ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed.

Dosbarth Beiblaidd

Cawn fwynhau cymdeithas braf yn y Dosbarth Beiblaidd bob bore dydd lau. Daw cynulliad da ynghyd ac ar hyn o bryd yr ydym yn canolbwyntio ar yr adnod “Ffrwyth yr Ysbryd yw cariad, llawenydd, tangnefedd, goddefgarwch, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder, hunanddisgyblaeth” (Galatiaid 5:22). Croeso cynnes i bawb. Byddwn bob amser yn cychwyn gyda phaned a sgwrs.

Dydd Baneri Cymorth Cristnogol

Diolch i bawb a wirfoddolodd i gynorthwyo yn Nydd Baneri Cymorth Cristnogol ar ddydd Sadwrn, 1 Hydref, 2016. Llwyddwyd i gasglu £593.50.

Myfyrwyr

Mae’n hyfrydwch mawr i ni rannu cymdeithas yn yr Arglwydd â’r myfyrwyr a ddaw atom i’r oedfeun. Edrychwn ymlaen at ddathlu gwrth yr Ymgnawdoliad mewn oedfa arbennig yn eu cwmni ar nos Sul, 4 Rhagfyr ac yr ydym yn dymuno pob llawenydd iddynt wrth iddynt ddathlu Gŵyl y Geni yng nghwmni eu teuluoedd.

Bore Coffi Elusen Cymorth Macmillan

Diolch i bawb gefnogodd y Bore Coffi ac i aelodau Seion fu’n gweini wrth y byrddau ac yn gofalu am y stondinau. Llwyddwyd i godi £355 er budd yr elusen.

Yr Wyl Ddiolchgarwch

Ar fore Sul, 2 Hydref cynhaliwyd Oedfa Ddiolchgarwch y Plant a’r Ieuentid ar thema’r “Synhwyrâu”. Roedd ffenestri’r capel wedi eu haddurno’n drawiadol gan blant, athrawon a swyddogion yr Ysgol Sul i adlewyrchu’r thema. Cafwyd bendith wrth wrando ar y cyflwyniadau offerynnol a lleisiol, y sgets, y gweddiâu a’r darlleniadau o’r Ysgrythur ynghyd â neges glir gan y gweinidog. Ar y prynhawn Mercher dilynol, cynhaliwyd Oedfa Ddiolchgarwch a Chymun yn y Ffestri o dan arweiniad y gweinidog gyda neges yn seiliedig ar yr adnod “Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol” (Mathew 6:11). Cawsom fwynhau te blasus yn dilyn yr oedfa. Diolch yn fawr iawn i’r chwirydd fu’n paratōi’r te.

Offrwm dros yr Wyl Ddiolchgarwch

Diolch i bawb am eu cyfraniadau dros yr Wyl Ddiolchgarwch i’r Banc Bwyd ym Mhenparcau. Derbyniwyd amrywiaeth o fwyd ynghyd â £178.58 tuag at brynu bwyd. Diolch yn fawr iawn am bob rhodd hael. Hefyd gwnaethom gasgliad arbennig i gefnogi Apêl Haiti Cymorth Cristnogol yn dilyn y difrod enbyd achoswyd gan Gorwynt Mathew. Derbyniwyd £185.22 i’r Apêl.

I'ch Dyddiadur...

Dydd Mercher, 30 Tachwedd

Cwrdd Chwarter Cyfundeb Ceredigion yng Nghapel y Tabernacl, Pencader.

10:30 Cynhadledd yn cynnwys cyflwyniad gan y Parchedig Robin Samuel, Swyddog Cynnal ac Adnoddau De Cymru o Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.
2:00 Anerchiad y cadeirydd, Mrs Fioled Jones.

Dydd Sadwrn, 3 Rhagfyr

10:30 Bore Coffi Nadoligaidd Cymdeithas y Capel.

12.00 – 5.30 Rhannu pamffledi Nadoligaidd yn Stryd y Popty fel rhan o Fenter Aberystwyth.
4.30 Canu carolau yn sgwâr Owain Glyndŵr.
4.45 Y Goeden Nadolig yn cael ei goleuo.

Dydd Sul, 4 Rhagfyr

10:00 Oedfa Gymun ac Ysgol Sul y plant a'r ieuencid.

6:00 Oedfa Nadolig yng nghwmni'r myfyrwyr. Bydd y myfyrwyr yn arwain yr addoliad ac fe bregethir gan y Gweinidog. Ceir lluniaeth ar derfyn yr oedfa.

Dydd Llun, 5 Rhagfyr

12:00 Cinio Bara a Chaws Cymorth Cristnogol ym Methel, Stryd y Popty.

Dydd Iau, 8 Rhagfyr

Taith Noddedig Cymorth Cristnogol er budd y Ffoaduriaid: O Fethlehem, Dyffryn Ceidrych, Sir Gaerfyrddin i'r Aifft yn Sir Ddinbych. Mae gwahoddiad i ni ymuno â'r cerddwyr o Aberystwyth i Ynyslas ac mae taflen noddi yng nghyntedd y capel.

Dydd Sul, 18 Rhagfyr

10:00 Oedfa'r bore ac Ymarfer y plant a'r ieuencid ar gyfer yr oedfa Nadolig.

4:30 Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul
"Baban Bethlehem, Ffoadur yn yr Aifft, Gwaredwr y Byd."

Derbynnir offrwm arbennig i gefnogi Apêl Ffoaduriaid Syria.

Yn dilyn yr oedfa

PARTI NADOLIG YR YSGOL SUL AC YMWELIAD GAN SIÔN CORN

(Gwerthfawrogir pob cyfraniad at y parti.
Derbynnir ein cyfraniadau gan Mrs Eiry Evans).

Nos Lun, 19 Rhagfyr

Gwahoddiad i ymuno â Christnogion eraill i ganu carolau o gylch wardiau Ysbyty Bronglais – cychwyn yng nghapel yr ysbyty am 6:15 o'r gloch.

Dydd Nadolig am 10:00 o'r gloch:

Oedfa Deuluol - gofynnir i'r plant ddod ag un tegan ganddynt i'r oedfa. Cyfle i roi'r lle canolog i'r Arglwydd Iesu ar ddydd ei ben-blwydd.

Dydd Sul, 1 Ionawr, 2017

10:00 Oedfa Gymun Dechrau'r Flwyddyn.
6:00 Cwrdd Gweddi Dechrau'r Flwyddyn.

Dydd Sul, 15 Ionawr, 2017

10:00 Oedfa'r bore ac Ysgol Sul y plant a'r ieuencid.

6:00 Oedfa Unedig ddwyieithog i holl eglwysi'r dref yn Eglwys y Drindod. Pregethir gan y Parchg. Bob Jackson.

Nos Fawrth, 17 Ionawr, 2017

7:00 Cyfarfod o Gymdeithas y Capel - Sgwrs gan Dr Endaf Edwards.
(Bydd Cyfarfod Blynnyddol y Gymdeithas yn dilyn)

Dydd Sul, 5 Mawrth, 2017

10:00 Oedfa Deuluol i ddathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni'r plant a'r ieuencid.

6:00 Oedfa Gymun.

Cyfarfod nesaf o Bwyllgor y Nodion am 6.15 ar Nos Lun, 13 Mawrth, 2017.

Pregethwyr

8 Ionawr Parchg. Dr Terry Edwards
19 Chwefror Parchg. Ddr. Geraint Tudur
13 Mawrth Parchg. Ddr. Noel Davies

Trefn Gwasanaethau'r Cymun

1 Ionawr (bore), 5 Chwefror (hwyr), 5 Mawrth (hwyr), 16 Ebrill – Sul y Pasg (bore).